

Trosolwg

1. Nodi'r gofynion o ran graffiau a siartiau ar gyfer astudio'r set ddata gyda rhanddeiliaid
2. Dileu unrhyw werthoedd dyblyg, anghywir a nwl i lanhau data
3. Dewis y math o allbwn graffigol sydd ei angen yn unol â gofynion
4. Cynhyrchu graff neu siart o'r set ddata ofynnol yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
5. Nodi'r duedd y mae'r data'n ei arddangos i roi gwybod am ddangosyddion tueddiadau i randdeiliaid
6. Nodi math o duedd a gosod llinell duedd linol i ddelweddu data dros gyfres amser neu duedd llyfn i ddelweddu'r cyfartaledd sy'n amrywio yn unol â gofynion
7. Dangos hafaliad y llinell duedd ar gyfer y data i ragfynegi gwerthoedd y dyfodol yn unol â gofynion
8. Cadw allbwn y graff yn y daenlen yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. Mewngludo data ffeiliau i daenlen
2. Nodi set ddata i'w hastudio
3. Dilysu data i nodi data nad ydynt yn cydymffurfio
4. Dileu data dyblyg, anghywir a nwl
5. Dewis y math o allbwn graffigol i'w ddefnyddio yn unol â'r gofynion
6. Creu graff neu siart o'r data angenrheidiol
7. Nodi ffurf y tueddiad y mae'r data'n ei arddangos
8. Dewis a gosod llinell duedd linol i ddelweddu tueddiad data dros gyfres amser
9. Dewis a gosod tueddiad llyfn i ddata gyda'r cyfartaledd yn amrywio
10. Fformatio a golygu llinell duedd yn ôl y gofyn
11. Dangos hafaliad llinell y duedd ar gyfer y data cyfredol
12. Cadw allbwn y graff yn y daenlen

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. Sut i fewngludo setiau data o ffeiliau a thaenlenni eraill
2. Beth yw diben yr astudiaeth sy'n dadansoddi'r set ddata
3. Y dulliau creu graffiau a siartiau a ddefnyddir i grynhoi, dadansoddi a dehongli data rhifiadol a phryd maen nhw'n briodol
4. Pwysigrwydd dilysu a gwirio data a sut y gellir sicrhau bod y rhain yn gywir mewn taenlenni
5. Sut i ddilysu a dileu data gwallus
6. Sut i ddilysu data i gyfyngu ar y math o ddata a gofnodir
7. Sut i nodi a datrys problemau o ran data dyblyg neu ddiangen
8. Y prif fathau o ddata a fformatau a ddefnyddir
9. Y dulliau ystadegol safonol a ddefnyddir i osod tueddiadau i ddata
10. Sut i gymhwyso dulliau ystadegol sylfaenol a ddiffiniwyd ymlaen llaw i nodi tueddiadau a phatrymau mewn data
11. Nodweddion allweddol meddalwedd taenlenni ar gyfer gosod tueddiadau i ddata
12. Sut i greu graffiau a siartiau gan ddefnyddio nodweddion taenlenni
13. Sut i nodi'r patrwm a ddangosir gan y data
14. Y camau sy'n gysylltiedig â phennu hafaliad llinell duedd
15. Negeseuon gwallau cyffredin am ddilysu data a dadansoddi tueddiadau a sut i ymateb iddynt
16. Sut i gynllunio a chadw graffiau a siartiau sy'n dadansoddi tueddiadau

Datblygwyd gan	e-skills
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2022
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Maw 2025
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	ODAG Consultants Ltd.
RCU gwreiddiol	TECHDUDA3
Galwedigaethau perthnasol	TGCh i ddefnyddwyr
Cyfres/Set	Defnyddwyr TG
Geiriau Allweddol	dadansoddi data, rheoli data, deallusrwydd busnes